

Ciclosporin i drin afiechyd llygaid sych nad sydd wedi gwella er gwaethaf triniaeth gyda dagrau ffug

Rhagfyr 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir ciclosporin (Ikervis) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl sydd ag afiechyd llygaid sych nad sydd wedi gwella er gwaethaf triniaeth gyda dagrau ffug.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych afiechyd llygaid sych difrifol nad yw wedi gwella er gwaethaf triniaeth gyda dagrau ffug, a bod eich meddyg o'r farn mai ciclosporin yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai ciclosporin fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd ciclosporin am ei fod yn gweithio tua'r un mor dda ac yn costio tua'r un peth â fformiwleiddiadau ciclosporin eraill sydd ar gael ar y GIG.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Mae afiechyd llygaid sych (a elwir hefyd yn syndrom llygaid sych ac weithiau 'keratitis') yn gyflwr cyffredin lle nad yw llygaid person yn creu digon o ddagrau, neu mae eu dagrau'n anweddu'n rhy gyflym. Mae hyn yn arwain at y llygaid yn sychu a dod yn goch a chwyddedig,

Gall afiechyd llygaid sych difrifol achosi golwg aneglur a theimlad bod grut yn y llygad. Os na chaiff ei drin, gall weithiau achosi dallineb.

Caiff ei drin gan amlaf gyda dagrau ffug (a elwir hefyd yn amnewidion dagrau) a chyffuriau i leihau unrhyw chwyddo.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), 0303 123 9999, www.rnib.org.uk.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-1743-3